# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 6

PERFFORMIAD PRIF GYNGHORAU A'U LLYWODRAETHU

## PENNOD 1

PERFFORMIAD, ASESIADAU PERFFORMIAD AC YMYRRAETH

*Asesiadau panel o berfformiad*

### 92 Dyletswydd ar brif gyngor i drefnu asesiad perfformiad gan banel

(1) Rhaid i brif gyngor wneud trefniadau fel bod panel a benodir gan y cyngor, o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin olynol ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor, yn asesu i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad.

(2) Yn yr adran hon, cyfeirir at asesiad o dan is-adran (1) fel "asesiad perfformiad gan banel".

(3) Wrth gynnal asesiad perfformiad gan banel mewn cysylltiad â chyngor, rhaid i banel ymgynghori â'r canlynol ynglŷn ag i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad—

- (a) pobl leol,
- (b) personau eraill sy'n cynnal busnes yn ardal y cyngor,
- (c) staff y cyngor, a
- (d) pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn yr ystyr a roddir i "recognised" yn Neddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p. 52)) gan y cyngor.

(4) Yn dilyn asesiad perfformiad gan banel rhaid i banel lunio adroddiad sy'n nodi—

(a) ei gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad;

(b) unrhyw gamau y mae'r panel yn argymell bod y cyngor yn eu cymryd er mwyn cynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.

(5) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gwneud yr adroddiad rhaid i'r panel ei anfon—

(a) i'r cyngor,

(b) at Archwilydd Cyffredinol Cymru,

(c) at Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, a

(d) at Weinidogion Cymru.

(6) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael yr adroddiad gan y panel, rhaid i'r cyngor—

(a) sicrhau bod yr adroddiad ar gael i bwyllgor llywodraethu ac archwilio'r cyngor, a

(b) cyhoeddi'r adroddiad.

(7) Rhaid i drefniadau o dan is-adran (1) alluogi'r prif gyngor i gyhoeddi o leiaf un adroddiad cyn y diwrnod sydd chwe mis cyn y diwrnod y mae'r etholiad cyffredin nesaf ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor i fod i'w gynnal.

(8) Yn yr adran hon, mae cyfeiriad at banel yn gyfeiriad at aelodau'r panel hwnnw yn gweithredu ar y cyd; yn unol â hynny, mae swyddogaeth y mynegir ei bod yn swyddogaeth i banel yn swyddogaeth sy'n perthyn i bob aelod o'r panel na chaniateir ei harfer oni fo'n cael ei harfer ar y cyd â'r aelodau eraill.

## 93 Dyletswydd ar brif gyngor i ymateb i adroddiad ar asesiad perfformiad gan banel

(1) Rhaid i brif gyngor lunio ymateb i bob adroddiad a wneir o dan adran 92(4) mewn cysylltiad â'r cyngor.

(2) Rhaid i'r ymateb ddatgan—

(a) i ba raddau y mae'r cyngor yn derbyn y casgliadau yn yr adroddiad ynglŷn ag i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad,

(b) i ba raddau y mae'r cyngor yn bwriadu dilyn unrhyw argymhellion sydd yn yr adroddiad, ac

(c) unrhyw gamau y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.

(3) Rhaid i'r cyngor sicrhau bod fersiwn ddrafft o'r ymateb ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio.

(4) Rhaid i'r pwyllgor llywodraethu ac archwilio adolygu'r ymateb drafft a chaiff wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r datganiadau a wneir yn y fersiwn ddrafft o dan is-adran (2).

(5) Os nad yw'r cyngor yn gwneud newid a argymhellir gan y pwyllgor llywodraethu ac archwilio o dan is-adran (4), rhaid i'r cyngor nodi, yn yr ymateb, yr argymhelliad a'r rhesymau pam na wnaeth y newid.

(6) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl llunio'r ymateb terfynol rhaid i'r cyngor—

(a) cyhoeddi'r ymateb, a
(b) anfon yr ymateb at—
(i) aelodau'r panel,
(ii) Archwilydd Cyffredinol Cymru,
(iii) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, a
(iv) Gweinidogion Cymru.

(7) Rhaid i drefniadau o dan adran 92(1) alluogi'r prif gyngor i gyhoeddi o leiaf un ymateb i adroddiad cyn y diwrnod sydd bedwar mis cyn y diwrnod y mae'r etholiad cyffredin nesaf ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor i fod i'w gynnal.

## 94 Asesiadau perfformiad gan baneli: rheoliadau atodol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ar gyfer penodi paneli gan brif gynghorau o dan adran 92(1), ac mewn cysylltiad â hynny.

(2) Caiff y rheoliadau, yn benodol, gynnwys darpariaeth ynglŷn ag—
(a) penodi aelodau o banel (gan gynnwys nifer, ac unrhyw gyfyngiad ar nifer, yr aelodau y caniateir neu y mae rhaid eu penodi, ac unrhyw amodau ar gyfer penodi);
(b) talu ffioedd i aelodau o banel neu mewn perthynas â hwy.